SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

# Cylchlythyr Newsletter

**Cylchlythyr #46 SCHTh Gogledd Cymru – 28 Mehefin 2024**
**OPCC North Wales Newsletter #46 – 28 June 2024**

## Lansio strategaeth newydd efo'r weledigaeth o Gogledd Cymru heb drais

Mae menter newydd wedi'i lansio ar y 18.06.24 yng Nghanolfan Busnes Conwy, Cyffordd Llandudno, efo'r nod o greu Gogledd Cymru heb drais. Ei henw ydy Strategaeth Ymateb i Drais Difrifol Gogledd Cymru, a bwriad y cynllun ydy gweithio efo cymunedau er mwyn atal a lleihau trais difrifol ar draws y rhanbarth.

Mae'r strategaeth y cyntaf o'i bath yng Nghymru, ac wedi'i chyflwyno fel rhan o'r Ddyletswydd Trais Difrifol sydd yn gyfrifoldeb ar asiantaethau lleol gorfodi'r gyfraith, yn dilyn Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022. Mae'r ddyletswydd yn canolbwyntio ar ddod â phartneriaid, gan gynnwys yr heddlu, yr awdurdodau lleol, y gwasanaethau tân ac achub ac asiantaethau penodol o'r adrannau iechyd a chyfiawnder troseddol, at ei gilydd er mwyn ymdrin â thrais difrifol a'i achosion gwraidd mewn ardaloedd lleol. **Darllenwch fwy yma.**



## New strategy launches with the vision of a North Wales without violence

A new initiative launched on the 18.06.2024 at Conwy Business Centre, Llandudno Junction with the aim of creating a North Wales without violence. Called the North Wales Serious Violence Response Strategy, the objective of the plan is to work with communities to prevent and reduce serious violence across the region.

The new strategy is the first of its kind in Wales and has been introduced as part of the Serious Violence Duty that now lies with local law enforcement across the country, following the Police Crime Sentencing and Courts Act 2022. The duty focuses on bringing partners, including the police, local authorities, fire and rescue services and specified health and criminal justice agencies together to tackle serious violence and its root causes in local areas. Read more here.

## Ail-gadarnhau'r Dirprwy CHTh Wayne Jones yn ei swydd am gyfnod o bedair blynedd

Mewn cyfarfod arbennig o Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ym Modlondeb, Conwy ar 21 Mehefin, ail-gadarnhawyd Wayne Jones fel Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd (CHTh) Gogledd Cymru am gyfnod pellach o bedair blynedd.

Mae'r Panel Heddlu a Throsedd yn gorff sy'n cynnwys deg cynghorydd ledled Gogledd Cymru a thri aelod annibynnol cyfetholedig. Mae'n craffu gwaith y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Mae ailbenodi Wayne Jones fel Dirprwy yn dilyn ailethol Andy Dunbobbin fel CHTh Gogledd Cymru gan bobl y rhanbarth ym mis Mai. Mae'r Dirprwy yn eu tro wedi'u henwebu gan y CHTh. Caiff y cynnig hwn ei gyflwyno i'r panel iddyn nhw gytuno arno.

Cyn gwasanaethu fel Dirprwy CHTh ers mis Medi 2021, roedd Wayne Jones yn uwch dditectif hefo Heddlu Gogledd Cymru a bu'n gwasanaethu fel Pennaeth Gwasanaethau Trosedd. Darllenwch fwy yma.



## Deputy PCC Wayne Jones reconfirmed in role for four-year term

At a special meeting of the North Wales Police and Crime Panel at Bodlondeb, Conwy on 21 June, Wayne Jones was reconfirmed as Deputy Police and Crime Commissioner (PCC) for North Wales for a further term of four years.

The Police and Crime Panel is a body made up of ten councillors from across North Wales and three co-opted independent members and scrutinises the work of the Police and Crime Commissioner. The reappointment of Wayne Jones as Deputy follows the re-election of North Wales PCC Andy Dunbobbin by the people of the region in May. The Deputy is in turn nominated by the PCC and this proposal is then put to the panel for their agreement.

Prior to serving as Deputy PCC since September 2021, Wayne Jones was a senior detective with North Wales Police and served as Head of Crime Services. **Read more here.**

## Rhyl Raptors in rapture thanks to money seized from criminals

A North Wales wheelchair sports club is racing ahead thanks to funding taken from the proceeds of crime. The club, Rhyl Raptors was visited on 25 June by North Wales Police and Crime Commissioner Andy Dunbobbin to see how the money is being used for the good of the community, and particularly to support the club in expanding their storage capacity for loading and unloading sports wheelchairs.

The source of the grant is the Your Community, Your Choice fund, which supports grass-roots organisations across the region and is backed by the North Wales Police and Crime Commissioner, North Wales Police and Community Trust and North Wales Police. The funding for Your Community, Your Choice comes partly from money seized by the courts through the Proceeds of Crime Act, with the rest from the Police and Crime Commissioner.

Over the eleven years since Your Community, Your Choice started, almost £600,000 has been awarded to nearly 200 projects working to reduce crime in their neighbourhoods and to support the priorities in the Police and Crime Commissioner's Police and Crime Plan. **Darllenwch fwy yma.**



## Rhyl Raptors uwch ben eu digon diolch i arian a atafaelwyd oddi ar droseddwyr

Mae clwb chwaraeon cadeiriau olwyn yng Ngogledd Cymru ar garlam diolch i'r cyllid a gymerwyd o elw troseddu. Fe wnaeth Andy Dunbobbin, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, ymweld hefo Rhyl Raptors er mwyn gweld sut mae'r arian yn cael ei ddefnyddio er lles y gymuned, ac yn arbennig er mwyn helpu'r clwb ehangu eu storfa er mwyn llwytho a dadlwytho cadeiriau olwyn chwaraeon.

Ffynhonnell y grant ydy cronfa Eich Cymuned, Eich Dewis, sy'n helpu sefydliadau ar lawr gwlad ar draws y rhanbarth ac sy'n cael ei chefnogi gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned a Heddlu Gogledd Cymru. Mae'r arian ar gyfer Eich Cymuned, Eich Dewis yn dod yn rhannol oddi wrth arian sydd wedi ei atafaelu drwy'r llysoedd drwy Ddeddf Enillion Troseddau gyda'r gweddill o Gronfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Ers dechrau Eich Cymuned, Eich Dewis dros un mlynedd ar ddeg yn ôl, mae bron i £600,000 wedi cael ei roi i 200 o brosiectau sy'n gweithio er mwyn lleihau troseddau yn eu bröydd a helpu'r blaenoriaethau yng Nghynllun Heddlu a Throsedd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. **Read more here.**

---

Ar Ddydd Sadwrn 22 Mehefin, aeth aelodau o Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd i Falchder Fflint cyntaf i ddangos cefnogaeth i'r gymuned LHDTC+ leol ac i ymgysylltu â phobl y Fflint a'r ardal ehangach.












On Saturday 22nd of June, members of the Office of the Police and Crime Commissioner went to the first Flint Pride to show support for the local LGBTQ+ community and to engage with the people of Flint and the wider area.

---

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

Rydych chi'n derbyn yr e-bost hwn oherwydd eich bod wedi cofrestru i dderbyn ein e-byst cylchlythyrau.
You are receiving this email as you signed up to receive our newsletter updates.

Eisiau newid sut rydych chi'n derbyn yr e-byst hyn?
Cysylltwch â ni drwy socialmedia@northwales.police.uk i ddiweddaru eich dewisiadau neu ddad-danysgrifio o'r rhestr hon.

Want to change how you receive these emails?
Contact us via socialmedia@northwales.police.uk to update your preferences or unsubscribe from this list.

Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
Pencadlys yr Heddlu
Glan y Don
Bae Colwyn
Conwy LL29 8AW

Office of the Police and Crime Commissioner North Wales
Police Headquarters
Glan y Don
Colwyn Bay
Conwy LL29 8AW

Gallwch ddarllen ein polisi preifatrwydd yma:
https://www.northwales-pcc.gov.uk/cy/polisi-preifatrwydd

You can read our privacy policy here:
https://www.northwales-pcc.gov.uk/privacy-policy